13.3 DYFARNU TEITL ATHRO: GWEITHDREFN AR GYFER DYFARNU CADAIR ATHRO EMERITWS

PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD

DYFARNU TEITL ATHRO: GWEITHDREFN AR GYFER DYFARNU CADAIR EMERITWS

1. Rhagarweiniad

1.1 Mae'r adran hon yn y Llawlyfr Academaidd yn disgrifio'r gweithdrefnau a fabwysiedir gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer dyfarnu Cadeiriau Emeritws.

2. Eligibility

2.1 Gall Athro Emeritws gael ei roi i Athrawon sy'n ymddeol â Chadair Bersonol ac sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i'r Brifysgol.

3. Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr

3.1 Mae'r grym gan Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr i ystyried ceisiadau am Gadeiriau Emeritws.

3.2 Mae Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr wedi'i ffurfio o:

- Y Llywydd a'r Is-Ganghellor (Cadeirydd)
- Y Dirprwy Academaidd i'r Is-Ganghellor
- Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesedd
- Dirprwy Is-Ganghellor Gwella Myfyrwyr
- Tri Athro wedi'u hethol gan y Bwrdd Academaidd

3.3 Bydd y tri aelod etholedig yn gwasanaethu ar y Pwyllgor am gyfnod o ddwy flynedd â'r posibilrwydd o gael eu hail-benodi am hyd at gyfanswm o bedair blynedd yn ddi-dor.

3.4 Yn ogystal bydd dewis gan y Pwyllgor i gyfethol aelodau mewnol dros dro i'r Pwyllgor lle y bydd hynny'n briodol.

3.5 Bydd yn ofynnol bod aelodau Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr yn datgan unrhyw wrthdaro buddiannau o ran ymgeiswyr ar ddechrau pob cyfarfod o'r Pwyllgor.

4. Y Weithdrefn Dyfarnu

4.1 Dylid cyflwyno enwebiadau yn ysgrifenedig i AD wedi'u cyfeirio i'r Llywydd a'r Is-Ganghellor gan Ddeon yr Ysgol berthnasol a ddylai roi enghreifftiau i ddangos sut mae'r unigolyn wedi gwasanaethu'r sefydliad â chlod arbennig yn unol â'r meini prawf cyfredol ar gyfer Cadair Bersonol. Dylai'r enwebiad amlinellu hefyd sut bydd yr Athro yn parhau i gyfrannu'n wirfoddol i'r Ysgol. .

4.2 Caiff ceisiadau ar gyfer y teitl Emeritws eu hystyried gan Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr ar ddau bwynt yn y flwyddyn academaidd yn ystod tymor yr Hydref a thymor y Gwanwyn. Caiff dyddiadau cyflwyno eu cyhoeddi yn flynyddol ar wefan AD.

4.3 Os bydd Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr yn penderfynu i ddyfarnu'r teitl, bydd AD yn cadarnhau hyn yn ysgrifenedig i'r unigolyn. Rhoddir Gwybod i'r Bwrdd Academaidd am y dyfarniad hefyd.

5. Amodau

5.1 Dyfernir y teitl Athro Emeritws am oes ond mae Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr yn cadw'r hawl i dynnu'r teitl yn ôl ar unrhyw bryd. Bydd y Bwrdd Academaidd yn cael gwybod am golli'r teitl a'r dyddiad y digwyddodd hyn.

5.2 Bydd Adnoddau Dynol yn trefnu mynediad i wasanaethau TG a Llyfrgell ac i adeiladau'r Brifysgol os bydd angen. Caiff Athrawon Emeritws ddefnyddio'u teitl mewn cyswllt â'r Brifysgol ar gyfer dibenion cyhoeddi/cyhoeddusrwydd ond ni fydd y teitl yn awgrymu unrhyw statws cyflogaeth neu hawl i gyflog.

6. Cyfle Cyfartal

6.1 Yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal Prifysgol Metropolitan Caerdydd, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl weithgareddau. Felly caiff y teitl Athro Emeritws ei ddyfarnu ar sail haeddiant a gallu. Bydd Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr yn ystyried amgylchiadau anacademaidd a allai fod wedi cyfyngu neu fod wedi rhwystro datblygiad gyrfa broffesiynol ymgeisydd o ran maint yn hytrach nag ansawdd yr allbwn a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r teitl.